

Galwad i addoli

Pan ofynnodd Iesu, atebodd Simon Pedr:
'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw.'
Gadewch i ninnau roi'r ateb hyderus hwnnw,
ac addoli Iesu,
y Meseia, Mab y Duw byw.
Amen.

Gweddi o fawl

Arglwydd Iesu,
daethost i'r ddaear a cherdded yn ein plith;
ti yw'r Meseia, mab y Duw byw.
Rwyd wedi dangos y gwirionedd i ni;
ti yw'r Meseia, mab y Duw byw.
Rwyd yn byw gyda ni, yn dangos i ni y ffordd i fyw;
ti yw'r Meseia, mab y Duw byw.
Rydym yn diolch i ti ac yn dy foli am mai
ti yw'r Meseia, mab y Duw byw.
Amen.

Emyn: Y mae in Waredwr (C.Ff. 416)

Y mae in Waredwr,
Iesu Grist Fab Duw,
werthfawr Oen ei Dad,
Meseia, sanctaidd, sanctaidd yw.

Diolch, O Dad nefol,
am ddanfon Crist i'n byd,
a gadael dy Ysbryd Glân
i'n harwain ni o hyd.

Iesu fy Ngwaredwr,
enw ucha'r nef,
annwyl Fab ein Duw, Meseia
'n aberth yn ein lle.

Yna caf ei weled
ryw ddydd yn y ne'
a'i addoli ef yn Frenin
yn y sanctaidd le.

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/E6WKOE4EUq0>

Y Mae In Waredwr (Melody Green) · Alwen Derbyshire

Datganiad Pedr (Mathew 16:13-20)

Pan gyrhaeddodd Iesu ardal Cesarea Philipi, gofynnodd i'w ddisgyblion, "Pwy mae pobl yn ei ddweud ydw i, Mab y Dyn?"

"Mae rhai yn dweud Ioan Fedyddiwr," medden nhw, "eraill yn dweud Elias, ac eraill eto'n dweud Jeremeia neu un o'r proffwydi."

"Ond beth amdanoch chi?" meddai. "Pwy dych chi'n ddweud ydw i?" Atebodd Simon Pedr, "Ti ydy'r Meseia, Mab y Duw byw."

"Rwyt ti wedi dy fendithio'n fawr, Simon fab Jona," meddai Iesu, "am mai dim person dynol ddangosodd hyn i ti, ond fy Nhad yn y nefoedd. A dw i'n dweud wrthyt ti mai ti ydy Pedr (sef 'y garreg'). A dyma'r graig dw i'n mynd i adeiladu fy eglwys arni hi, a fydd grym marwolaeth ddim yn ei gorchfygu hi. Dw i'n mynd i roi allwedd i teyrnas yr Un nefol i ti; bydd beth bynnag rwyt ti'n ei rwystro ar y ddaear wedi'i rwystro yn y nefoedd, a bydd beth bynnag rwyt ti'n ei ganiatáu ar y ddaear wedi'i ganiatáu yn y nefoedd." Yna dyma Iesu'n rhybuddio'i ddisgyblion i beidio dweud wrth neb mai fe oedd y Meseia.

Myfyrdod

Cafwyd sawl ysgrif ddiddorol yn Ichthus ar enwau lleoedd, diolch i Mrs Glenda Carr, a thynnodd Dr Bruce Griffiths sylw at ei chyfrol ddiweddaraf, *Hen Enwau o Feirionnydd*, yn y rhifyn diwethaf. Dywed fod enwau lleoedd yn mynegi hanes ardaloedd, ac felly y mae yn y Beibl hefyd.

Dywedir yn yr efengylau i Iesu fynd a'i ddisgyblion i Cesarea Philipi wrth droed mynydd Hermon. Enw'r dref yn wreiddiol oedd Paneas (Baneas heddiw), a chan fod ogof y duw Pan yno roedd yn ganolfan baganaidd bwysig. Llifai dyfroedd o bwll yn yr ogof y credid ei fod yn ddiwaelod, a dyma yn ôl traddodiad un o ddau darddle yr afon Iorddonen. Adeiladwyd ac ehangwyd y ddinas gan Philip, mab Herod Fawr, a newidiodd enw'r lle er mwyn anrhydeddu yr Ymerawdwr Cesar . Galwodd Philip y ddinas yn Cesarea Philipi er mwyn gwahaniaethu'r ddinas oddi wrth y porthladd o'r enw Cesarea oedd ar lan Môr y Canoldir. Wrth wneud hynny bu iddo ddyrchafu ei fri ei hunan ar yr un pryd.

Erbyn cyfnod Iesu roedd Cesar yn cael ei addoli fel mab duw yng Nghesarea Philipi. Dyma un o ganolfannau pwysicaf yr Ymerodraeth Rufeinig yn y dwyrain, ac roedd arwyddocâd gwleidyddol y lle a phaganiaeth amlwg y ddinas yn ei gwneud yn wrthun i'r Iddewon. Ond yma, yn nannedd y gelyn, y mae Pedr yn cyffesu mai Iesu yw'r Meseia, a dyna'r union gyffes y byddai'n ei dwyn maes o law i Rufain - prif ddinas yr Ymerodraeth Rufeinig.

Mae'r ffydd Gristnogol o'r cychwyn wedi herio'r drwg a throi'r byd wyneb i waered. Mae grym cyffes Pedr yn cael ei adlewyrchu yn haerriad Iesu; *'Ac yr ydwyf finnau yn dywedyd i ti, mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys; a phyrth uffern nis gorchfygant hi.'*

Y syniad yma yw bod Crist yn adeiladu ei eglwys ar gyffes yr unigolyn, a daw Pedr yn garreg sylfaen cymdeithas newydd o gredinwyr.

Fel yng nghyfnod Iesu mae yna ymerodraethau o bob math yn hawlio ein hymlyniad ninnau, a hynny yn fasnachol, yn wleidyddol yn ysbrydol a chrefyddol. Camp y credinwyr yw rhoi'r lle blaenaf i Grist a byw yng ngoleuni hynny; Meddai R J Derfel (1824-1905);

Yma nid oes gennym ni
neb yn arglwydd ond tydi;
ac ni cheisiwn arall chwaith
oesoedd tragwyddoldeb maith. (C.Ff. 206)

Gweddi o eiriolaeth

Rydym yn ymddiried ynot ti, Arglwydd, i ateb ein gweddïau.
Eiddot ti yw'r deyrnas, y nerth a'r gogoniant.
Gwneler dy ewyllys, O Arglwydd.

Gweddiwn dros bawb sy'n cael eu ffydd yn anodd:
o achos hunan amheuaeth,
oherwydd amgylchiadau anodd,
am fod pethau drwg yn digwydd,
am iddynt gael eu harwain ar gyfeiliorn,
am eu bod eisïau enwogrwydd ac arian.

Gweddïwn dros bawb sy'n teimlo eu bod yn y tywyllwch,
wedi eu cloi mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt atebion.

Gweddïwn drosom ein hunain:
pan fyddwn mewn sefyllfaoedd anodd,
pan fyddwn yn ceisio datgloi drysau nad oes gennym hawl i'w hagor,
pan fyddwn yn methu canolbwyntio ar y deyrnas,
pan fyddwn yn peidio â rhannu ein stori.
Arglwydd gwranddo ein gweddi, yn enw Iesu Grist.
Amen.

Emyn : Iesu, Iesu, 'rwyf ti'n ddigon (CFf 320)

Iesu, Iesu, 'rwyf ti'n ddigon,
'rwyf ti'n llawer mwy na'r byd;
mwy trysorau sy'n dy enw
na thrysorau'r India i gyd:
oll yn gyfan
ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.

Y mae gwedd dy wyneb grasol
yn rhagori llawer iawn
ar bob peth a welodd llygad
ar hyd wyneb daear lawn:
Rhosyn Saron,
ti yw tegwch nef y nef.

WILLIAM WILLIAMS 1717-91

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/BT1jIJ5fyWM>

Gwyn Hughes Jones | Miwsig Fy Mywyd

Gweddï i gloi

Dyweddodd Iesu wrth ei ddisgyblion am beidio â dweud wrth neb mai ef
oedd y Meseia.

Boed ein calonnau yn awr mor llawn o ryfeddod a llawenydd,
fel na fedrwn wneud dim ond rhannu'r newyddion da.

Tyrd gyda ni, Arglwydd da,
a helpa ni i ddweud wrth bawb sy'n barod i wrando.

Amen.